

RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd yn rhithiol ar 1 Medi, 2020

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Richard Griffiths, G O Jones, R Ll Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers (Cadeirydd), John Griffith a Mendoza (Aelod Lleyg)(Is-Gadeirydd)

Aelod Lleyg: Mr Dilwyn Evans

Wrth law: Prif Weithredwr, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitemau 3, 4 a 5), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro (ar gyfer eitem 9), Pennaeth Risg ac Archwilio Mewnol (MP), Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd, Swyddog Pwyllgor (ATH)

Ymddiheuriadau: Dim

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorydd Robin Williams (Aelod Portffolio - Cyllid), Mr Ian Howse (Partner Ymgysylltu - Deloitte)(ar gyfer eitem 6), Ms Bethan Roberts a Mr Alan Hughes (Archwilio Cymru) Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK), Prif Archwiliwr (NW), Uwch Archwiliwr (NR), Mr Gareth Wyn Williams, Gohebydd Democratiaeth Leol

(2:00 y.p. tan 5:20 y. p.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	1 Datganiad o Ddiddordeb Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Bu i'r Cyngorydd Peter Rogers a Mrs Annwen Morgan, Prif Weithredwr ddatgan diddordeb rhagfarnol o safbwynt eitem 4 ar yr agenda ac ymneilltuodd y naill na'r llall tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd 21 Gorffennaf, 2020, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Llywodraethu Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG) 2019/20 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
PENDERFYNIAD	Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – <ul style="list-style-type: none">• Dderbyn datganiad yr Uwch

	<p>Berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill, 2019 a mis Mawrth, 2020.</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod y Gwasanaeth Dysgu yn sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i sicrhau bod yr archwiliad cydsyniol y trefnwyd i'w gynnal ers tro yn cael ei gwblhau. • bod gwasanaethau'n cefnogi bod y Cyngor yn datblygu ei Gofnod o Weithgareddau Prosesu dan Erthygl 30 y GDPR. • bod y Pwyllgor yn cymeradwyo unrhyw gamau sydd ar ôl i'w cymryd yn y Cynllun Gwaith ar gyfer Diogelu Data fel rhai sy'n adlewyrchu'r risgiau llywodraethu gwybodaeth y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. <p>NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL</p>
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<p>4 Adroddiad Blynyddol - Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2019/20 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro</p>
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn yr adroddiad fel un sy'n rhoi sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau sy'n ofynnol o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a Pholisi/Canllawiau Chwythu'r Chwiban. • Derbyn a nodi'r Tabl Gwersi a Ddysgwyd fel yn Atodiad 1 i'r adroddiad fel y'i cyflwynwyd. <p>CAMAU YCHWANEGOL – Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro yn cynnwys data sy'n ymwneud â chanmoliaethau a dderbyniwyd yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<p>5 Derbyn Polisiâu - Data Cydymffurfiaeth Blwyddyn 3 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro</p>
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa bresennol o ran derbyn polisiâu ar draws y Cyngor a'r bwriad i ail-gychwyn y gofynion o 1 Medi, 2020.</p>

	CAMAU YCHWANEGOL: Gofynnir i Bennaeth Gwasanaethau Tai roi ymateb i'r Cyngor ynglŷn â'r gostyngiad yn lefel cydymffurfio derbyn polisiau o fewn Gwasanaethau Tai.
--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> Argymhell i'r Cyngor Llawn ei fod yn cadarnhau ei fod yn derbyn Datganiad Cyfrifon Terfynol Interim 2019/20 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'r Pwyllgor. Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chyfeirio'r ddogfen at y Cyngor Llawn i'w chymeradwyo ac at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i gael ei harwyddo. Nodi y bydd Datganiad Cyfrifon 2019/20 yn dod gerbron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor Llawn eto ac y caiff ei arwyddo eto gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 unwaith y bydd y farn a'r adroddiad archwilio wedi'u cwblhau. Adlewyrchir unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad archwilio yn y Datganiad o Gyfrifon pan gaiff ei gyflwyno i aelodau graffu arno a'i gymeradwyo. <p>CAMAU YCHWANEGOL-</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 Swyddog yn diwygio/eglwro'r pwyntiau yn y testun a godwyd o ran geiriad. Bod y Prif Weithredwr yn cadarnhau bod y rhestr asedau ar gael ar gyfer Aelodau Lleyg y Pwyllgor gyda Chadeirydd y Grŵp Tir ac Asedau.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Diweddariad ar Strategaeth a Blaenoriaethau Archwilio Mewnol 2020/21 Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd nodi darpariaeth sicrwydd a blaenoriaethau'r Archwilwyr Mewnol wrth symud ymlaen.</p> <p>NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Archwilio Allanol: Aseiad o Gynaliadwyedd Ariannol - Cyngor Sir Ynys Môn Adroddiad gan Archwilio Allanol
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd derbyn Adroddiad Aseu Cynaliadwyedd Ariannol yr Archwiliad Allanol mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn a nodi ei gynnwys.</p> <p>CAMAU YCHWANEGOL – Bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn dosbarthu adroddiad yr adolygiad Archwilio Mewnol ar Wydnwch Ariannol unwaith y bydd y cyfieithiad wedi'i gwblhau.</p>
RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Archwilio Allanol: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r Trefniadau Atal ac Ymyrryd yn Gynnar i Sicrhau bod Plant yn Ddiogel ac yn cael Cefnogaeth - CSYM Adroddiad gan Archwilio Allanol
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd derbyn adroddiad yr Archwiliad Allanol ar ei archwiliad o drefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth ac i nodi cynnwys.</p> <p>NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL</p>
RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2019/20 Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd cymeradwyo adroddiad blynyddol y pwyllgor archwilio a llywodraethu ar gyfer 2019/20 cyn ei gyflwyno i gyfarfod y cyngor llawn ar 8 Medi, 2020.</p>